

# Ffermio, Bwyd a Bywyd Gwledig

Fel cymdeithas amaethyddol roedd gweithgareddau gwledig yn rhan bwysig o fywyd ac yn Chwefror 1913 fe ddaeth pawb ynghyd i gefnogi'r Gystadleuaeth Aredig Flynnyddol Rhuddlan a'r Cylch a gynhaliwyd yn Fferm Tŷ Isa yn Sarn Lane, yr hon a enillwyd gan Mr Abel Hughes o'r Waen, ac am ei fod wedi ei hennill dair blynedd yn olynol cafodd gadw'r Gwpan Arian Her (gwerth £10 a 10s) a gyflwynwyd gan Corbett Williams a'i Fab o waith Haearn Phoenix, Rhuddlan. Cynhaliodd Mr Owen Jones o Fferm yr Abaty, Rhuddlan anrhydedd y dref drwy gymryd y wobr gyntaf (£3) yn y gystadleuaeth "caseg feichiog". Denodd y sioe flynyddol Cymdeithas Amaethyddol Bodrhyddan ymgeiswyr a phresenoldeb mawr a daeth y dref ynghyd yn gryf i'r Cyfarfod Blynnyddol Cwrso Ysgyfarnogod.

Gwnaeth ffermwyr â'r yn dda yn 1913 gyda gwerthiant lleol o dunnell o wenith yn cynhyrchu 35s, haidd 31s a cheirch 21s o gymharu â 31s, 24s a 17s y flwyddyn flaenorol. Fel ffermwyr heddiw mae'n debyg bod Mr E Pierce o Criccin yn falch o dderbyn tystysgrif yn dweud nad oedd TB wedi ei ddarganfod yn ei wartheg na'i lefrith.



Gweision fferm gydag Injan Ager Tynnu

Roedd digonedd o fwyd ar gael a gallai'r wraig tŷ brynu dwy iâr am 5s 3c i 6s a 15 - 16 o wyau am 1s. Dibynnu ar y toriad, pris cig eidion oedd 7c i 11c y pwys, cig dafad 8c i 11c y pwys, porc 5½c i 5¾c y pwys a chwnigen 1s 3c y pwys, bwyd moethus yn amlwg! Hysbysebodd E B Jones o'r Rhyl gymysgedd te Tsieina-Ceylon am 2s 4c y pwys a photel o wisgi am 4s ond ar ddechrau'r rhyfel gostyngwyd pris torth 2 bwys o 20% i 2c.

Yn 1914 ymatebodd llawer gwas ffarm yr alwad i ymuno â'r fyddin ac ymunodd hyd yn oed ffermwyr fel Mr T Wilson o Dŷ Coch ar y ffordd i Gwm gan werthu ym mis Mawrth 1915 ei stoc gyfan o wartheg, lloi, heffrod a hychod. Cafodd allbwn amaethyddol ei fygwth a chamodd merched o Fyddin Dir y Merched i mewn i lenwi'r bwllch ynghyd a ffoaduriaid o Wlad Belg gan weithio'n gampus mewn gwaith nad oedd y mwyafrif ohonynt wedi ei brofi o'r blaen. Er gwaethaf hyn ac oherwydd gostyngiad yn y cyflenwad bwyd a achoswyd gan i'r llongau tanfor Almaenig suddo llongau marchnad cargo (roedd 2/3 o fwyd y DU yn cael ei fewnforio) roedd cyflenwad bwyd yn lleihau ac yn fuan iawn cafodd pob gardd yn Rhuddlan ei droi yn ardd tyfu ffrwythau neu lysiau gyda darlithoedd mewn garddio cynhyrchiol ar gael. Dechreuodd pobl y dref fagu ieir dan arweiniad llyfr am ddim a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ar ofal dofednod a, gan gydnabod gwerth protein wŷ mewn gwella clwyfau, sefydlwyd Banc Wyau lle gallai pobol wneud rhoddion o wyau i filwyr a anafwyd.

Fel roedd y rhyfel yn parhau roedd galwad am bren yn cynyddu yn ddramatig, a gwagedd a ffoaduriaid unwaith eto oedd yn gwneud y mwyafrif o'r gwaith gan dorri coed, tocio, certio a llifio. Roedd angen pren onnen ar gyfer awyrennau a phrennau eraill ar gyfer pyllau glo, cytiau, arfau rhyfel, ffosydd, gwaelod llongau, aelodau artiffisial o'r corff, carn offer a thrawstiau rheilffordd. Cynhaliwyd cynaeafu coed ar raddfa enfawr yng Ngogledd Cymru a chafodd rhai ystadau fel Coed Coch yn Abergele eu diosg o goed.

Daeth yr angen am fwyd a dyfwyd gartref yn fwyfwy llym ac yn 1917 ffurfiwyd Pwyllgorau Amaethyddol Rhyfel y Sir (PARS) gyda Mr G Roberts a Mr E Humphreys yn cynrychioli CSP Rhuddlan ar bwyllgor Sir y Fflint. Gyda'r dasg o arolygu pob fferm a thyddyn a chytuno cwotâu gyda phob ffermwr i gynyddu allbwn ar gyfer 1918, gwelodd PARS, er enghraifft, bod Fferm yr Abaty, Rhuddlan yn eiddo i Gapten Rowley Conwy ond yn cael ei ffermio gan David Jones, gyda chyfanswm o 181 erw yn 1917 a'r erwau wedi eu dyrannu fel hyn: gwenith 6, barlys 2, ceirch 21, tatws 1 a llysiâu gwraidd 4. Ar gyfer y flwyddyn canlynol cytunwyd i ddyrannu'r erwau fel hyn; 12 erw yn cael ei benodi ar gyfer meillion a 14 yn cael ei aredig ar gyfer grawnfwydydd gyda Mr Jones yn gwirfoddoli i aredig 36 erw yn ychwanegol. Dengys y cofnod bod y fferm yn cyflogi 3 dyn, bod yna adeiladau allanol da, 4 ceffyl gwaith, 5 ceffyl arall, 15 o wartheg llaeth, 51 o wartheg eraill, 240 o ddefaid a 4 mochyn ond roedd cwningod a helwriaeth wedi achosi ychydig o ddifrod i'r cnydau.

Sefydlodd Helfa Dinbych a Fflint Wasanaeth Tarw yn rhad ac am ddim a threfnwyd y gwasanaeth gan Mr R Williams o Criccin i alluogi ffermwyr lleol gael gwasanaeth teirw yn ddiraffferth, rhodd gan y tir feddianwyr a ffermwyr lleol er mwyn cynyddu bridio gwartheg ar gyfer llaeth a chig.



Helfa Dinbych a Fflint ar Bont Rhuddlan

I gynorthwyo'r ffermwyr i fwydo'r wlad fe gyflenwodd y PARS ŷd, tatws hadyd, chwistrelli tatws rhag malltod, a nifer mawr o offer amaethyddol - tractorau, erydr, driliau ŷd, rholeri, trinwyr, cynaeafwyr, ogau, peiriannau dyrnu, certi, ceffylau a gyrwyr. Yn 1917 penododd Pwyllgor Sir Fflint beiriannydd i glirio cyrsiau dŵr rhwng Prestatyn ac Abergele a draenio Morfa Rhuddlan er mwyn troi'r tir llawn dŵr yn dir cynhyrchu.

Fodd bynnag, ym mis Ionawr 1918, ac er ymchwydd enfawr mewn cynhyrchu bwyd fe gyflwynwyd dogni am de ar 2 owns y person yr wythnos, menyn a margarin am 5 owns y person yr wythnos a siwgr a chig, ond o leiaf gosodwyd pris llefrith am 4c y chwart y person. Roedd yn ofynnol i bob person gofrestru ar gyfer prynu bwyd gyda'u groser lleol erbyn Mehefin 1918 a chyflwynwyd cardiau dogni a thocynnau.

Oherwydd y mesurau uchod ac oherwydd cyflwyniad system confoi o longau arfog i amddiffyn llongau cargo ar draws Yr Iwerydd cafodd poblogaeth Prydain eu bwydo gan osgoi newyn. Fodd bynnag, parhaodd y dogni hyd at y 1920au.



## M2/116140 Gyrrwr THOMAS WYNNE

Ganwyd Thomas yn Rhuddlan yn 1886 ac aeth i Ganada ar ddiwedd 1911 lle cyfarfu a Chymraes, Elizabeth Ellis, a phriodwyd y ddau ar 6ed Ebrill, 1912. Ar ôl eu priodas dychwelodd y ddau i Ruddlan ac fe anwyd eu plentyn cyntaf, Myfi Elizabeth yng Ngwaenysgor ym mis Ionawr 1913. Ganwyd eu hail blentyn, John Forrester ym mis Tachwedd 1914 ac yn fuan wedyn symudodd y teulu i Benbedw. Ganwyd mab arall iddynt, Thomas Eric yng Ngorffennaf 1917. Peiriannydd ceir a gyrrwr ceir oedd Thomas Wynne ac felly ymrestrodd â'r Adran Drafnidiaeth Filwrol yng Nghorfflu Gwasanaeth Brenhinol y Fyddin ym Mhenbedw ar Orffennaf 31ain, 1915, yn 29 oed. Bu farw ar Dachwedd 11eg, 1918 o ffliw a llid yr ysgyfaint a fe'i claddwyd yn estyniad Mynwent Etretat, Seine-Maritime, Ffrainc. Ar ôl ei farwolaeth ail briododd Elizabeth, adawyd gyda thri phlentyn gyda Charles Ombler a chafodd ferch arall.

# Adnoddau a Ffynonellau

Cyfrifiad 1911 DU

Archifdy Sirol Sir Ddinbych: Llundain (Vale of Clwyd Toys) and Bennett's Trade Directories

Archifdy Sir y Fflint: Cofnodion Cyngor Tref Rhuddlan, Llyfr Log prifathro Ysgolion Rhuddlan, War Adroddiadau Arolugwyr yr Agricultural Committee

www.cymru1914.org: Hen gopïau o'r Denbigh Free Press, Flintshire Observer, Mining Journal and General Advertiser, and recruitment posters

Llyfrgell Y Rhyl: Hen gopïau o'r Rhyl Journal

Archifdy Rhuddlan Local History Society Photographic

Eglwys y Santes Fair, Rhuddlan: The Church Register, Easter Vestry Records Account book a'r fynwent.

Mynwent y Santes Fargaret, Bodelwyddan

Gwefan: Bodelwyddan Castle WW1 Trenches Disused Stations

Gwefan: Free BMD - Find My Past website Ancestry website

Wales, Its Part in the War gan Nicholls a Lloyd, cyhoeddwy. Toronto University Press Welsh Journals Online  
www.collectionscanada.gc.ca/index-e.html www.cwgc.org

From Workhouse to Hospital gan E. Parry-Jones, cyhoeddwy. Clwyd Health Authority 1981

The North Wales Hospital gan Clwyd Wynne, cyhoeddwy. Gwasg Helygain 2006